# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas Hafan**

**Ffordd Dewi Sant**
**Pwllheli**
**LL53 6EA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/03/2024

# Plas Hafan

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Ionawr 2020 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal o ansawdd da gan dîm o staff sy'n eu hadnabod yn dda. Mae rhannau amrywiol o'r gwasanaeth wedi'u trefnu mewn ffordd sy'n annog y bobl i gymdeithasu â'i gilydd. Caiff ffrindiau, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eu croesawu i'r gwasanaeth. Mae gweithgareddau yn cael eu cynnal a gwelsom y bobl yn cymryd rhan ac yn mwynhau eu hunain, gyda'r staff gofal yn helpu ac yn hwyluso'r gweithgareddau. Caiff y bobl eu hannog i gymryd rhan yn y gymuned. Yn yr un modd, caiff y gymuned wahoddiad i gymryd rhan mewn digwyddiadau dathlu er enghraifft Dydd Gŵyl Dewi a gemau rygbi.

Mae aelodau'r tîm rheoli yn newydd. Mae aelodau blaenorol y tîm rheoli yn eu helpu a'u cynorthwyo wrth iddynt setlo i'w rolau newydd. Mae'r broses drosglwyddo hon yn gweithio'n dda, ac mae gan y rheolwr newydd systemau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r bobl yn rhan greiddiol o'r trefniadau ar gyfer darparu gofal o hyd. Cânt gyfleoedd i roi eu barn ar y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg, mewn cyfarfodydd i breswylwyr ac yn ystod trafodaethau dyddiol â'r staff a'r tîm rheoli. Mae'r tîm rheoli yn gydwybodol ac yn gwneud ymdrech i ddod i adnabod y bobl ac i ymgyfarwyddo â'r gwasanaeth a'r systemau sydd ar waith. Gwelsom fod y gwasanaeth a ddarperir yn unol â'r datganiad o ddiben.

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y*

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y bobl yn cael eu cynnwys wrth gynllunio eu gofal a'r drefn o ddydd i ddydd. Gwelsom aelodau o'r staff gofal yn helpu'r bobl yn ystod amser bwyd. Gwelsom fod y bobl yn teimlo'n gartrefol a'u bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau penodol fel clirio a golchi eu llestri. Roedd y bobl yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau crefft gyda'r staff gofal. Mae'r tîm rheoli yn sicrhau y rhoddir dewisiadau i'r bobl a'u bod yn gallu lleisio eu barn ar y ffordd y maent yn derbyn gofal a sut maent yn treulio eu hamser. Mae sawl ardal lle gall y bobl gymdeithasu â'i gilydd neu gymryd rhan mewn gweithgareddau.

Mae'r prosesau ar gyfer cynllunio a darparu gofal yn canolbwyntio ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl. Mae'r bobl a welsom mor iach ag y gallant fod ac roeddent yn ymddangos yn hapus. Mae'r staff gofal yn annog y bobl i gymryd rhan ac yn dangos agwedd gadarnhaol a chyfeillgar at y bobl. Mae'r tîm rheoli yn sicrhau bod digon o staff gofal i ddarparu gofal. Mae'r ffeiliau gofal yn dangos bod y tîm rheoli yn cysylltu â gweithwyr proffesiynol priodol er mwyn cynnal canlyniadau iechyd a llesiant y bobl. Mae sawl ardal lle gall y bobl dreulio eu hamser a lle gall gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref ddiwallu eu hanghenion gofal.

Mae systemau ar waith i atal y risg o niwed. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys asesiadau risg unigol priodol a gaiff eu diweddaru pan fo angen. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant perthnasol er mwyn iddynt allu darparu gofal yn ddiogel. Mae'r tîm rheoli yn neilltuo gweithiwr allweddol i'r bobl, sef gofalwr penodol sy'n gyfrifol am yr unigolyn hwnnw. Mae hyn yn gadarnhaol, gan ei fod yn darparu cysondeb o ran gofal ac yn golygu bod y staff gofal yn adnabod y bobl a'u hanghenion gofal yn dda. Caiff yr amgylchedd ei drefnu a'i gynllunio i sicrhau bod y bobl yn ddiogel a chaiff risgiau eu dileu lle y bo'n bosibl.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ac yn gynnes. Caiff gwaith crefft a wnaed gan y bobl ei arddangos ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Gwelsom addurniadau Pasg yn cael eu gwneud a'u gosod yn ardaloedd byw y gwasanaeth. Mae'r staff gofal yn manteisio i'r eithaf ar yr amgylchedd ac yn annog y bobl i gymryd rhan ac i gymdeithasu. Mae angen ailaddurno rhannau o'r gwasanaeth. Mae cynlluniau ar waith gan y darparwr yn hyn o beth. Mae'r ystafelloedd gwely a'r ardaloedd cymunedol wedi cael eu haddurno gan ystyried anghenion yr unigolion ac er mwyn cynnal llesiant yr unigolion.

## Gofal a Chymorth

Gwelsom sampl o gynlluniau personol. Roeddent yn fanwl ac yn nodi dewisiadau, arferion, ac anghenion iechyd unigol y bobl. Gwelsom fod asesiadau risg priodol ar waith sy'n allweddol o ran sicrhau y caiff iechyd a llesiant y bobl eu cynnal. Gwelsom fod y cofnodion hyn yn cael eu cwblhau er mwyn adlewyrchu anghenion gofal unigol. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y cynlluniau yn cael eu hadolygu o fewn y terfynau amser gofynnol neu pan fydd anghenion gofal yn newid. Gwnaethom siarad â gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld ar ddiwrnod ein hymweliad. Gwnaethant ddweud wrthym fod y cyfathrebu yn effeithiol ac yn barhaus. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein hymweliad eu bod yn hapus ac yn cael gofal da. Mae'r gwasanaeth yn bwrw ati i ddarparu'r “Cynnig Rhagweithiol” ar gyfer y Gymraeg. Mae arwyddion dwyieithog ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Caiff y cynlluniau personol eu hysgrifennu yn newis iaith yr unigolion. Fodd bynnag, gall hyn fod yn anodd i'r staff gofal nad ydynt yn siarad Cymraeg, ond nododd y staff gofal sy'n siarad Cymraeg eu bod yn rhoi cymorth iddynt pan fo angen. Caiff yr holl ddogfennaeth eu darparu'n ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys canllawiau'r gwasanaeth a'r datganiad o ddiben.

Mae'r darparwr yn sicrhau y caiff gwybodaeth ddigonol ei chasglu am yr unigolion, eu dymuniadau, a'u dewisiadau o ran trefn ddyddiol. Mae'n cysylltu â'r bobl, eu ffrindiau, eu teuluoedd, a gweithwyr proffesiynol perthnasol er mwyn casglu gwybodaeth bwysig, cyn i'r bobl symud i mewn i'r gwasanaeth. Mae'n ychwanegu at y wybodaeth hon ar ôl i'r bobl symud i mewn, a phan fydd trefn ddyddiol yr unigolyn wedi'i sefydlu. Caiff y wybodaeth a gesglir ei chofnodi yn y cynlluniau personol, yn newis iaith yr unigolyn. Caiff y bobl eu hannog i gymryd rhan ac i barhau â'u trefn unigol. Gwelsom fod y cofnodion hyn yn hygyrch, yn gryno, ac yn fanwl. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym nad ydynt bob amser yn deall yr hyn sydd wedi cael ei ysgrifennu os yw'r cofnodion yn Gymraeg, gan nad ydynt o bosibl yn gwbl ddwyieithog.

Mae gofal iechyd ar gael i'r bobl yn ôl yr angen. Gwelsom gofnodion sy'n dangos y cysylltiadau amrywiol a wnaed ar gyfer apwyntiadau ac ymweliadau rheolaidd â'r gwasanaeth gan weithwyr proffesiynol. Roedd y gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref yn canmol y ffordd y mae'r darparwr yn rhannu gwybodaeth, yn gofyn am arweiniad ac yn cyfathrebu am anghenion gofal unigol. Gwelsom gofnodion sy'n dangos bod y staff yn cyfathrebu'n rheolaidd â gweithwyr proffesiynol a bod y gweithwyr hynny yn rhoi arweiniad iddynt. Roedd y llyfr ymwelwyr hefyd yn dangos yr amrywiaeth o ymweliadau gan weithwyr iechyd proffesiynol gan gynnwys meddygon teulu a nyrsys ardal. Caiff gofalwyr allweddol eu neilltuo i'r bobl, sy'n cynnig parhad ac yn sicrhau bod y gofalwr yn meddu ar wybodaeth am anghenion yr unigolyn. Gwelsom fod y cofnodion yn cael eu diweddaru a'u haddasu pan gaiff arweiniad newydd ei roi.

Mae proses sefydledig ar waith mewn perthynas â meddyginiaethau. Mae'r cofnodion rhoi meddyginiaeth yn dangos bod y staff gofal sy'n rhoi meddyginiaeth yn cofnodi'r wybodaeth mewn ffordd glir a chryno. Gwnaethom siarad â'r staff sy'n rhoi meddyginiaeth, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus a'u bod wedi cael hyfforddiant mewn perthynas â'r broses ar gyfer meddyginiaethau; mae tystysgrifau yn ffeiliau'r staff yn cadarnhau hyn.  Gwelsom un aelod o'r staff yn rhoi meddyginiaeth. Gwnaeth hynny'n gywir ac yn hyderus, gan gynnal gwiriadau priodol yn ystod y broses. Gwelsom fod trefniadau digonol ar waith gan y tîm rheoli ac asiantaethau allanol i oruchwylio'r broses ar gyfer meddyginiaethau. Mae'r cofnodion yn dangos y caiff camau gweithredu priodol eu cymryd os bydd gwallau meddyginiaeth yn digwydd. Mae'r cofnodion goruchwylio yn dangos trafodaethau am y broses ar gyfer meddyginiaethau. Gwelsom fod y polisi a'r gweithdrefnau meddyginiaeth yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu, a'u bod ar gael i'r staff gofal. Cânt eu llofnodi gan y staff sydd wedi'u darllen.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd wedi'i drefnu'n sawl adran. Cyfeirir atynt fel unedau. Mae tair uned yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Gofynnir i ymwelwyr lofnodi i mewn oherwydd diogelwch tân a diogelwch cyffredinol. Mae mynedfa'r gwasanaeth yn ddiogel. Mae amrywiaeth o gymhorthion symudedd, addasiadau a theclynnau codi ar gael er mwyn i'r bobl fod mor annibynnol â phosibl. Mae amrywiaeth o arwyddion a lluniau i helpu pobl sy'n byw gyda dementia i symud o gwmpas y cartref.

Mae systemau cadarn ar waith i fonitro'r amgylchedd drwy archwiliadau a gwiriadau dyddiol, wythnosol a misol. Mae'r rhain yn cynnwys gwiriadau sy'n gysylltiedig â goleuadau, cyfarpar diogelwch tân, larymau, legionella a storio cemegion. Caiff gwiriadau diogelwch tân eu cynnal yn unol â'r rheoliadau. Mae'r asesiadau risg perthnasol ar waith i fonitro diogelwch tân. Mae'r sampl o archwiliadau a welsom yn dangos bod meysydd i'w gwella yn cael eu nodi. Gwelsom dystiolaeth fod gwelliannau wedi'u gwneud mewn ymateb i archwiliadau. Mae cofnodion archwiliadau yn dangos ymatebion prydlon i unrhyw risgiau a nodwyd yn yr amgylchedd. Mae mesurau hylendid bwyd ar waith. Mae staff y gegin wedi cael hyfforddiant hylendid bwyd a chafodd y gegin sgôr hylendid bwyd o bump, sef y sgôr uchaf sydd ar gael. Caiff tymheredd yr ystafell feddyginiaeth ei fonitro a'i gofnodi'n gywir. Fodd bynnag, roedd y thermomedr i fesur tymheredd yr oergell wedi torri. Gwelsom nad oedd tymheredd yr oergell wedi cael ei fonitro gan fod y thermomedr wedi torri, yn ystod pythefnos cyntaf mis Mawrth 2024. Mae hyn yn golygu efallai nad oedd y meddyginiaethau wedi'u storio ar dymheredd diogel. Mae oergell newydd yno erbyn hyn a chaiff tymheredd yr oergell ei gofnodi'n gywir.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr systemau ar waith i fonitro ansawdd y gofal. Mae'r tîm rheoli newydd yn dod yn gyfarwydd â'r systemau archwilio sydd ar waith. Gwelsom sampl o systemau archwilio'r gwasanaeth, gan nodi eu bod yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Fe'u defnyddir fel adnoddau i fonitro ac adolygu agweddau ar y gofal. Mae'r rhain yn cynnwys y cynlluniau personol, yr amgylchedd, a'r broses ar gyfer meddyginiaethau. Gofynnir am farn unigolion drwy gyfarfodydd rheolaidd i'r preswylwyr. Mae cofnodion o'r cyfarfodydd hyn yn dangos y caiff safbwyntiau'r bobl eu casglu ac y gweithredir arnynt. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd, ac yn ystod yr ymweliadau hyn hefyd, mae'n casglu gwybodaeth gan y bobl, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld. Caiff y wybodaeth hon ei chasglu er mwyn gwneud gwelliannau a gynlluniwyd. Gwnaethom edrych ar adroddiadau diweddaraf yr Unigolyn Cyfrifol sy'n tynnu sylw at gynlluniau adnewyddu a rhaglen wella barhaus.

Mae'r darparwr yn sicrhau sefydlogrwydd ariannol parhaus i'r gwasanaeth ac yn gwneud yn siŵr bod trefniadau goruchwylio parhaus ar waith. Gwnaethom edrych ar agweddau ar yr amgylchedd y mae angen eu hadnewyddu. Mae'r cofnod cynnal a chadw yn dangos bod cynlluniau ar waith i ailaddurno sawl ardal gan gynnwys yr ystafelloedd gwely gwag. Esboniodd un o'r gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref ac sy'n gyfrifol am gyllid fod gan y cyngor restr aros ar gyfer gwaith adnewyddu sy'n seiliedig ar flaenoriaeth. Nid yw'r cartref yn llawn ar hyn o bryd ac mae sawl ystafell wag yn un rhan o'r adeilad. Gwelsom fod angen adnewyddu ac ailaddurno rhai o'r ardaloedd cymunedol a'r coridorau. Esboniodd y rheolwr bod cynlluniau adnewyddu ar waith, gan nodi bod y cartref ar restr aros fel rhan o gynlluniau gwella Cyngor Gwynedd ar gyfer yr holl gartrefi gofal sydd wedi'u cofrestru â'r cyngor.
Bydd y gwaith adnewyddu hwn yn gwella llesiant y bobl.

Caiff y staff eu recriwtio mewn ffordd ddiogel. Gwelsom fod mesurau ar waith i recriwtio, cadw a chefnogi'r tîm staff gofal. Roedd y lefelau staffio ar ddiwrnod ein hymweliad yn ddigonol. Gwelsom fod y staff gofal yn gallu cymdeithasu â'r bobl yn ogystal ag ymgymryd â'u dyletswyddau gofal. Mae rotas y staff yn dangos bod digon o staff ar gael bob dydd. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo bod digon o staff ar gael iddynt ymgymryd â'u rolau gofalu heb deimlo eu bod yn cael eu rhuthro. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion goruchwylio, sy'n dangos bod y staff gofal yn cael eu gorchwylio'n rheolaidd ac yn unol â'r rheoliadau. Mae'r cofnodion a welsom yn dangos eu bod yn cael y cyfle i drafod materion a allai fod yn effeithio ar eu gwaith. Gwelsom fod y tîm rheoli yn gwneud addasiadau priodol er mwyn datrys materion sy'n codi ar gyfer aelodau unigol o'r staff gofal; cadarnhawyd hyn gan y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw. Gwnaethom edrych ar y rhaglen oruchwylio, sy'n dangos y bydd y staff gofal yn parhau i gael sesiynau goruchwylio

ffurfiol. Mae'r darparwr yn ymweld â'r gwasanaeth bob dydd. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol; gwnaethom edrych ar ei gofnodion goruchwylio diweddar, sy'n cadarnhau hyn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/05/2024